

Croeso i Goedwig Mynwar Unwaith yn danwydd i ddiwydiant lleol

Mae Coedwig Mynwar o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Ynghyd â Choedwig Canaston cyfagos, mae Mynwar wedi bod yn goedwig drwchus ers canrifoedd.

Fe ddenodd yr argaeledd parod hwn o bren ddiwydiannau lleol i ymsefydlu yn yr ardal. Defnyddiwyd coed derw ar gyfer adeiladu llongau ac fe gynhyrchwyd golosg o'r pren fel tanwydd ar gyfer y ffowndri haearn ym melin Blackpool gerllaw.


Roedd y diwydiannau hyn wedi dirywio erbyn y 19eg ganrif, ac yn ystod yr 20fed ganrif fe blannwyd coed conwydd yn y mannau hynny a arferai fod yn goetir colldail.

Welcome to Minwear Forest Once fuelling local industry

Minwear Forest is within the Pembrokeshire Coast National Park. Together with nearby Canaston Wood, Minwear has been thickly wooded for centuries.

This ready availability of timber encouraged the creation of several local industries. Oak trees were used for shipbuilding and wood was converted into charcoal to fuel the iron foundry at nearby Blackpool Mill.

These industries had declined by the early 19th century and, during the 20th century, conifer trees were planted in place of many areas of former natural broadleaved woodland.



Llwybr Mynwar Minwear Walk



Hawdd | Easy

Pellter | Distance: 1½m | 2.5km
Amser | Time: 1 awr | hour

UCHAFBWYNTIAU: Mae'r daith gerdded gylchol gydag arwyddion yn cychwyn o'r maes parcio ac yn arwain at yr olygfán sydd â maic dros Aber y Cleddau. Ar hyd y llwybr mae yna ardal bicnic anffurfiol gyda meinciau pren wedi'u cerfio o foncyffion coed.

HIGHLIGHTS: This waymarked circular walk starts from the car park and goes to a viewpoint over the Cleddau Estuary with a bench. Along the way, there is an informal picnic area with wooden benches carved from tree trunks.



titw cynffon-hir
long tailed tit



crêyr glas
heron



Coedwig y glannau

Mae Mynwar ger pen uchaf adran llanw Afon Cleddau Ddu. Mae'r cylch llanw'n arwain at amrywiadau mawr mewn halwynedd dŵr sy'n darparu cynefin amrywiol i fywyd gwylt.

Mae yna adar glan dŵr fel crêyr glas a hefyd mae'n lle gwych i weld adar y coetir gan gynnwys y titwod cynffon-hir, cnocellau brith mwyaf a dringwyr bach.

Yn y gwanwyn, mae ymylon llwybrau'r goedwig yn wledd o flodau melyn llachar llygad Ebrill, a gwyn prydfarth blodau'r gwynt ac mae clystrau o glychau'r gog o dan y coed.

Ym misoedd yr hydref, mae lliwiau llathredig y coed derw coch a'r ffawydd yn y coetiroedd yn olygfa ysblennydd.

A waterside woodland

Minwear is near the head of the tidal part of the Eastern Cleddau River. The tides cause big changes in the saltiness of the water and this offers a home for a variety of wildlife.

There are waterside birds like herons and it is also a great place to see woodland birds including long-tailed tits, great spotted woodpeckers and treecreepers.

In spring, the woodland paths are edged with the bright yellow flowers of lesser celandine and delicate white wood anemones and look for patches of bluebells under the trees.

In the autumn, enjoy the burnished colours of red oak and beech trees.



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi: Hawfraint y Goron. © Hawfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100019741. This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey 100019741